Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Addysg a Chymorth i Deuluoedd

**ADRAN:** Ysgolion

**SWYDD:** Uwch-swyddog Safle

**GRADD Y SWYDD:** GR05

**YN ATEBOL I'R:** Pennaeth

---

**DIBEN Y SWYDD:**
O dan arweiniad/gyfarwyddyd y Rheolwr Safle neu'r Rheolwr Llinell darparu gwasanaethau cynnal a chadw a diogelwch ar safleoedd ac adeiladau'r ysgol.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Cyflawni dyletswyddau deilydd allweddi ac ymateb i alwadau brys. Cloi a datgloi adeiladau'r ysgol ac ardaloedd eraill.
- Ymgymryd ag archwiliadau adeiladau/safle rheolaidd, nodi a chofnodi gofynion atgyweirio a chynnal a chadw.
- Cynnal tasgau glanhau brys ac arbenigol.
- Bod yn gyfrifol am raglen wedi'i chynllunio o gynnal a chadw o safle, offer, gosodiadau a ffitiadau.
- Cynnal mân atgyweiriadau a dyletswyddau glanhau lle bo angen.
- Gweithredu a chynnal a chadw systemau gwresogi, offer a goleuadau.
- Efallai y byddwch yn goruchwylio staff glanhau a/neu staff safle eraill ac yn sicrhau bod staff yn gweithio i fanylebau y cytunwyd arnynt.
- Hwyluso a/neu oruchwylio contractwyr a monitro cyflawni yn erbyn manyleb contract.
- Sicrhau bod yr holl lwybrau ac ardaloedd caled allanol yn cael eu cadw'n lân, yn rhydd o sbwriel a chwyn, a bod llwybrau a grisiau'n cael eu graeanu yn ôl y galw.
- Casglu a gosod gwastraff i'w gasglu.
- Sicrhau bod cyflenwadau a deunydd yn cael eu harchebu o fewn cyllidebau y cytunwyd arnynt.
- Cynorthwyo wrth ymgymryd ag archwiliadau diogelwch ac asesiadau risg.
- Cysylltu â'r heddlu, diogelwch ac asiantaethau eraill.
- Hysbysu'r Pennaeth ynghylch materion sy'n ymwneud â'r adeilad a'r safle.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**

Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch.

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a’ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Uwch-swyddog Safle

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Safon dda o addysg neu'n gallu dangos cymhwysedd drwy brofiad. | Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Gwybodaeth am weithdrefnau Iechyd a Diogelwch.<br>• Gwybodaeth am Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd.<br>• Gwybodaeth am weithdrefnau codi a chario.<br>• Dealltwriaeth o gyfarpar, offer a pheiriannau arbenigol.<br>• Profiad o oruchwylio staff.<br>• Profiad blaenorol o fod yn ofalwr/gofalu am safle mewn ysgol neu amgylchedd tebyg. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Cywirdeb wrth weithredu offer, cyfarpar a pheiriannau<br>• Yn gwrtais bob amser wrth ymdrin ag eraill.<br>• Yn gallu cynllunio a chydlynu gwaith eich hun ac eraill.<br>• Yn hyblyg ac yn gallu ymateb i amgylchiadau a gofynion sy'n newid.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |